




Bore Sul, Tachwedd 3ydd, 2019



Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma, Mae'r oedfa wedi ei threfnu gan Keith Rowlands gyda chefnogaeth aelodau Pentre'r Eglwys a Thonteg. Bethan Roberts sy'n cyfeilio.

Yr Wythnosau Nesaf

Tachwedd 10 - Sul Heddwch yng ngofal Geraint Wyn gyda'r Dr Aled Eurig. Bydd copïau o lyfr Aled ar gael ar y dydd.



Tachwedd 17 - y Parchg. Dyfrig Rees a Mike West

Tachwedd 24 - y Parchg Gethin Rhys gyda Gwerfyl Morse

Rhagfyr 1af - Gwasanaeth gyda Chôr Caerdydd yn perfformio sioe Nadolig gan Emlyn Dole a Chris Davies, Llanelli

Rhagfyr 8ed - Y Parchg. Aled Edwards Rhagfyr 15eg - Dathliad Nadolig y Plant

Rhagfyr 22ain - oedfa'r Twmiaid gyda Geraint Rees a chyfraniadau amrywiol
Rhagfyr 29ain - Geraint Wyn a Keith Rowlands

PRYNHAWN 'MA!!

HAWL I FOLI

Plis ymunwch gyda ni yn y capel ar gyfer **Hawl i Foli** am 3.30 . Huw Edwards sy`n cyflwyno gêm banel newydd BBC Radio Cymru. Mae`n seiliedig ar emynau, emyn-donau, cyfansoddwyr ac emynwyr, a chwestiynau o bob math yn ymwneud â'r maes. Mae'r gyfres yn rhan o ddatliadau Caniadaeth y Cysegr yn 70 oed. Mae croeso i chi fod yn rhan o'r gynulleidfa i fwynhau R. Alun Evans, Betsan Powys, Robin ac Aled Samuel, Rhiannon Lewis, Hywel Gwynfryn, Branwen Gwyn ac Eilir Owen Griffiths yn mynd trwy'u pethau! Bydd digon o hwyl ac ambell stori ddiddorol siwr o fod! Dewch yn llw!

CYFARFOD CYFFREDINOL

BLYNYDDOL

Cynhelir Cwrdd Blynyddol Capel y Tabernacl Cyf. yn dilyn yr oedfa fore Sul 8 Rhagfyr. Dosberthir agenda'r cyfarfod, cofnodion drafft cyfarfod y llynedd a chopi o'r Adroddiad Blynyddol yn fuan.

ENWEBU CYFARWYDDWYR NEWYDD

Mae angen gofalu ein bod yn enwebu o leiaf **PEDWAR** Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr newydd gan fod tymor tair mlynedd pedwar aelod yn dirwyn i ben. Gellir casglu ffurflenni enwebu o gyntedd y capel o'r 27 Hydref ymlaen.

DYDDIAD CAU DERBYN ENWEBIADAU - DYDD LLUN 18 TACHWEDD 2019.

Bwciô'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com
neu decstio Caroline ar 07539452130

ELUSENNAU 2019

Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Adref, Ysgol Tŷ Coch, Cymorth i Ferched Cymru & CRICA (ymchwilio i Glefyd Crohn a chefnogi dioddefwyr ifanc).

AMLENNI BROWN 2019

Bydd casgliad amlenni brown elusennau 2019 yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn. Dyma'r elusennau fydd yn elwa eleni:

Ysgol Tŷ Coch/Adref/Cymorth i Ferched Cymru/Gofalwyr Ifanc RhCT/CRICA
Mae gwybodaeth am yr elusennau ar wefan y capel. Gyda'ch haelioni arferol chi, bydd cyfraniadau anrhydeddus yn cael eu cyflwyno i'r elusennau eto eleni.

DIOLCH YN FAWR

ELUSENNAU 2020

Os oes gennych awgrymiadau am elusennau ar gyfer casgliad 2020 cysylltwch â John Llew neu Ann Dwynwen ar lafar neu drwy ebost erbyn Tachwedd 4ydd, er mwyn i'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol gyflwyno rhestr i Fwrdd y Cyfarwyddwyr nos Fawrth Tachwedd 5ed
- johnllew@hotmail.com
ann.pentyrch@btinternet.com

Dathliad 150 mlynedd y Capel
8.00pm 31 Ionawr 2020
Yn y Ganolfan, Efail Isaf.

DON LLEWELLYN

yn siarad ar y testun:
'Straeon Cymeriadau Ardal y Garth'

CASGLIADAU DILLAD A NWDYDDAU

Mae'r casgliadau ar gyfer Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma. Mae stwff newydd bron pob wythnos. Diolch.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 5 Tachwedd. Os oes gennych adroddiad i'w gyflwyno neu fater i'w godi yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 erbyn nos Lun 4 Tachwedd fan bellaf.

Diolch.

TALEBAU NADOLIG 2019

Mae hi'n amser unwaith eto i ni ddangos ein cefnogaeth i bobl ifanc yr ardal sy'n gadael gofal, er mwyn sicrhau eu bod yn cael rywffaint o gysur a llawenydd dros y Nadolig.

Ein nod unwaith eto ydy cyflwyno taleb gwerth £20 i bump ar hugain o bobl ifanc, ac mae eich haelioni yn rhyfeddol bob blwyddyn. Os ydych chi'n awyddus i gyfrannu'n ariannol eto eleni, byddai Gill, Eleri, John Llew neu Ann Dwynwen yn falch o dderbyn eich rhoddion.

Byddwn yn cyflwyno'r talebau ganol mis Rhagfyr, a bydd y bobl ifanc yn eu gwario dan arweiniad eu gweithwyr cymdeithasol.

DIOLCH YN FAWR

CYLCH CADWGAN

Nos Wener 22 Tachwedd 2019 am 8.00pm, **FRANK OLDING**

yn siarad ar y testun:

'Eilun' (teitl ei gyfrol newydd o farddoniaeth)
yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf
Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru

7.30pm 14 Chwefror 2020 **Yr Athro GERAINT JENKINS** yn siarad ar y testun: 'Y Digymar lolo Morgannwg'

HELPU'R TRYSORYDD GYDA SIECIAU

Ar fwy nag un achlysur yn ddiweddar mae'r banciau wedi gwrthod derbyn siec am nad yw'r geiriad arni yn cydymffurfio air-am-air gydag enw swyddogol y cyfrif.

Felly mae Arwyn Jones (ein trysorydd) yn gofyn yn garedig am i bob un ohonom gofio pan fyddwn yn ysgrifennu siec yn y dyfodol i wneud y swm yn daladwy i:

CAPEL Y TABERNACL, CYF.